

## Mae Lleoedd dan Oruchwyliaeth yn Achub Bywydau

Rydym yn dymuno sefydlu memoranda dealltwriaeth er mwyn galluogi gweithrediad Canolfannau Lleihau Rhagor ar Niwed yng Nghymru.



### Beth yw Canolfannau Lleihau Rhagor ar Niwed (EHRCs)?

Enw arall ar EHRCs yw Canolfannau Atal Gorddos, Cyfleusterau Defnyddio Cyffuriau yn Fwy Diogel ac Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau, ac maent wedi bod yn rhan o ymatebion lleihau niwed effeithiol i faterion iechyd o ganlyniad i ddefnyddio sylweddau ers amser hir. Maent yn caniatáu i bobl gymryd cyffuriau anghyfreithlon mewn amgylchedd di-haint, dan oruchwyliaeth gweithwyr proffesiynol hyfforddederig. Nod pennaf cyfleusterau o'r fath yw lleihau risgiau aciwt lledaenu clefydau trwy rannu offer cyffuriau, lleihau marwolaethau cynnar trwy ddioddef gorddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau, lleihau swm yr eitemau sy'n gysylltiedig â chymryd cyffuriau sy'n cael eu gadael mewn mannau cyhoeddus, ac ymgysylltu â phoblogaethau ynysig ac ar gyrrion cymdeithas, a'u cysylltu gyda gwasanaethau trin.[1]

Sefydlwyd yr EHRC cyntaf yn Bern, Y Swistir ym 1986, er mwyn lleihau nifer y marwolaethau a oedd o ganlyniad i gymryd gorddos cyffuriau. Er hynny, mae nifer o wledydd Ewropeaidd ac ar draws y byd, megis Sbaen, Ffrainc, Yr Almaen, Canada, UDA ac Awstralia wedi gweithredu cyfleusterau o'r fath er mwyn lleihau'r niwed i iechyd y cyhoedd yn lleol.[2-5]

### Beth mae'r dystiolaeth yn ei awgrymu?

Nid oes unrhyw un fyth wedi marw o ganlyniad i gyffuriau o fewn EHRC, ac mae ardaloedd lle y gwelir EHRCs wedi nodi gostyngiad yn nifer yr achosion o orddos angheul o fewn 500m i'r cyfleuster ar ôl iddo agor.[6,7] Ar ôl agor EHRC yn Vancouver, gwelwyd gostyngiad o 35% yn nifer yr achosion gorddos angheul yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl agor y ganolfan, o'i chymharu â'r sefyllfa dros y ddwy flynedd flaenorol, o fewn 500m i'r cyfleuster. Yna, cymharwyd dalgylch y sampl gydag ardaloedd eraill y ddinas, a chanfuwyd gostyngiad o 9% yn unig mewn rhannau eraill o'r ddinas.[7]

Mae nifer o leoliadau sydd wedi gweithredu EHRCs wedi adrodd am fanteision amgylcheddol sylweddol ers agor cyfleusterau o'r fath. Mae lleoliadau lluosog wedi nodi gostyngiadau yng nghyfanswm yr eitemau cyffuriau sy'n cael eu taflu i ffwrdd mewn mannau ar ôl gweithredu EHRC. O blith y bobl a oedd wedi manteisio ar EHRC yn Nenmarc, roedd 96% ohonynt wedi hunan-adrodd am newid yn eu hymddygiad, o "beidio gwaredu eitemau cyffuriau yn ddiogel bob tro i waredu eitemau cyffuriau yn ddiogel bob tro", ar ôl i'r cyfleuster agor.[8] Mae ardaloedd eraill wedi

nodi gostyngiadau sylweddol mewn eitemau sy'n ymneud â chyffuriau yn y lleoliad lle y sefydlwyd EHRC ers hynny, yn ogystal â nifer yr episodau chwistrellu yn gyhoeddus.[9]

Yn ogystal, mae EHRCs wedi adrodd am ostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o ffonio am ambiwlans er mwyn ymateb i orddos cyffuriau yn yr ardal dan sylw, ers agor y cyfleuster.[10] Mae ymchwil wedi canfod gostyngiad mewn ymddygiad ymhliith y rhai sydd wedi manteisio ar wasanaeth EHRC, megis aildefnyddio eitemau untro a rhannu eitemau chwistrellu, sy'n gallu cynyddu risgiau iechyd a risgiau trosglwyddo clefydau fel hepatitis a HIV.[11] I bobl ar y cyrion, gall EHRCs fod y camau cyntaf i mewn i'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Er nad yw EHRCs yn gwarantu y bydd pobl yn manteisio ar driniaeth, gallant waredu rhai o'r rhwystrau traddodiadol a sicrhau bod triniaeth yn bersbectif mwy realistig.[12] Mae hyn yn berthnasol o ystyried y ffaith nad oedd 40% o'r bobl a fu farw yng Nghymru yn ystod 2021 o ganlyniad i orddos cyffuriau, wedi cael 'unrhyw gyswllt hysbys' neu unrhyw gyswllt gyda gwasanaethau yn ystod y 12 mis cyn eu marwolaeth.[13]

### Ffeithiau allweddol



Nid oes unrhyw un fyth wedi marw o orddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau mewn EHRC.



Mae nifer o EHRCs yn adrodd am ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm yr eitemau cyffuriau sy'n cael eu taflu i ffwrdd ar ôl sefydlu EHRC.



Gostyngiad yn nifer y galwadau am ambiwlans mewn ymateb i achosion gorddos sy'n gysylltiedig â chyffuriau.



Gostyngiad mewn ymddygiad megis rhannu offer chwistrellu, sy'n cynyddu risg materion iechyd amrywiol a chlefydau, gan gynnwys hepatitis a HIV.



Gostyngiad yn nifer yr achosion gorddos angheul oherwydd cyffuriau o fewn pellter penodol i EHRCs.

## Pam nawr?

BMAe Barod wedi dadlau ers tro dros archwilio a pheilota EHRCs yng Nghymru, fel rhan o gynllun lleihau niwed cyffredinol y wlad. Mae'r farchnad cyfreithiau anghyfreithlon yng Nghymru yn destun bygythiadau newydd yn gyson. Adeg ysgrifennu hwn, mae opioidau synthetig yn cynrychioli bygythiad cynyddol i iechyd y cyhoedd [14] ac fe allent waethyg argyfwng presennol sy'n ymwneud â chyffuriau.[15] Gwelwyd Cymru yn cofnodi trydydd ffigwr uchaf erioed y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn 2022, ac rydym eisoes yn gweld effeithiau andwyol sylweddau o'r fath. Yn 2022, gwelwyd cynnydd o 1,200% yn nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau synthetig yng Nghymru a Lloegr o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.[16] Adroddodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol bod 101 o farwolaethau rhwng 1 Mehefin 2023 a 22 Chwefror 2024 yn gysylltiedig â nitazinau, grŵp o opioidau synthetig, ar gyfradd o dri unigolyn yr wythnos.[17]

Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd bod yr EHRC gyntaf i gael caniatâd swyddogol yn y DU wedi cael ei chymeradwyo yn Glasgow [18] gan ymateb i'r argyfwng iechyd cyhoeddus, ac mae asesiad anghenion ac astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer cyfleuster defnyddio cyffuriau mewn ffordd fwy diogel yng Nghaeredin wedi argymhellodd y dylid cyflwyno darpariaeth EHRC yn y ddinas.[19] Argymhellodd y Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau (ACMD), cynghorwyr Llywodraeth y DU, y dylid gweithredu EHRCs er mwyn gostwng nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a niwed arall yn ôl yn 2016 [20], ac mae cyrrff eraill wedi adleisio'r alwad hon ers hynny.[21]

Byddai EHRCs yn ymyrraeth effeithiol wedi'i seilio ar dystiolaeth er mwyn lleihau'r risgau sy'n gysylltiedig ag opioidau synthetig, yn ogystal â'r defnydd o sylweddau eraill, gan ganiatâu dull gweithredu mwy unedig ac ar ffurf system gyfan tuag at leddfu pryderon parhaus a phryderon a fydd yn codi yn y dyfodol. Byddai gweithredu EHRCs yn cynnig y sylfaen i Gymru gydymffurfio ag arfer gorau ar lefel ryngwladol.

## Pam Memorandwm Dealltwriaeth (MOU)?

Byddai sefydlu a gweithredu EHRCs yn rhwym i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau (MDA) 1971, sy'n golygu bod yn rhaid llunio cytundeb gwaith gyda chyrrf gorfodi'r gyfraith, megis MOUs gyda phob heddlu yng Nghymru, er mwyn sicrhau y byddai eu sefydlu a'u gweithredu yn rhywbeth cyfreithlon. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai'r rhai a fyddai'n gweithredu'r cyfleuster yn wynebu her gyfreithiol nac yn cael eu herlyn. Yn ogystal, ni fyddai pobl â chyffuriau anghyfreithlon yn eu meddiant yn y cyfleuster neu'r cyffiniau yn cael eu harestio a / neu eu cosbi ychwaith.

**"Rydym yn gwella wrth ddarparu gwasanaethau, ond nid ydym yn gallu achub digon o fywydau o hyd. Pe bai'r niferoedd hyn yn marw o ganlyniad i unrhyw beth arall, byddai'n argyfwng cenedlaethol. Byddem yn gwneud popeth y gallem i atal y drychineb hon. Mae Cymru yn cael ei gadael ar ôl ac mae'r ffeithiau yn amlwg, mae EHRCs yn achub bywydau."**

Caroline Phipps, Prif Swyddog Gweithredol, Barod

## Beth ydym yn ei ddymuno?

- Rydym yn galw ar bob heddlu yng Nghymru i lunio memorandwm dealltwriaeth ynghylch EHRCs er mwyn caniatâu y cam o sefydlu EHRC peilot ym mhob rhan o Gymru.
- Er ein bod yn cydnabod nad yw cyfraith droseddu gyfredol wedi cael ei datganoli, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddilyn arweiniad yr Alban (Glasgow, 27 Medi 2023) a pheilota EHRC yng Nghymru, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Materion Cartref ym mis Awst 2023.[22]
- Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i lobio Llywodraeth y DU i ddiwygio MDA 1971 ar sail dystiolaeth ryngwladol bod EHRCs yn lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â sylweddau ac er mwyn ymateb i'r bygythiadau cyson i iechyd y cyhoedd, gan gynnwys y cynnydd mewn opioidau synthetig.

## Cyfeiriadau

1. EMCDDA (2018) [Drug consumption rooms: an overview of provision and evidence](#)
2. EMCDDA (2023) [Infographic. Location and number of drug consumption facilities throughout Europe](#)
3. Government of Canada (2024) [Supervised consumption explained: types of sites and services](#)
4. Victorian Government (2023) [Medically supervised injecting room](#)
5. City of New York [Alcohol and Drug Use Services](#)
6. Caulkins, J. (2019) [Supervised consumption sites: a nuanced assessment of the causal evidence.](#)
7. Shorter, G., et al. (2024) [Overdose Prevention Centres, Safe Consumption Sites, and Drug Consumption Rooms: A Rapid Evidence Review](#)
8. Kinnard, E. (2014) [Self-reported changes in drug use behaviors and syringe disposal methods following the opening of a supervised injecting facility in Copenhagen, Denmark](#)
9. Wood, E., et al. (2004) [Changes in public order after the opening of a medically supervised safer injecting facility for illicit injection drug users](#)
10. Salmon, A.M., et al. (2010) [The impact of a supervised injecting facility on ambulance call-outs in Sydney, Australia.](#)
11. Suen, L.W., et el. (2022) [Effect of an Unsanctioned Safe Consumption Site in the United States on Syringe Sharing, Rushed Injections, and Isolated Injection Drug Use: A Longitudinal Cohort Analysis](#)
12. [Time for safer injecting spaces in Britain? \(2016\)](#)
13. Public Health Wales - [Harm Reduction Database Wales: Drug related mortality Annual Report 2021 - 22](#)
14. Giraudon, I., et al. (2024) [Nitazenes represent a growing threat to public health in Europe](#)
15. Holland, A., et al. (2024) [Nitazenes—heralding a second wave for the UK drug-related death crisis?](#)
16. Office for National Statistics (2023) [Deaths related to drug poisoning by selected substances, England and Wales](#)
17. BBC News (2024) [Deadly opioids smuggled into UK in dog food, BBC learns](#)
18. BBC News (2023) [UK's first consumption room for illegal drugs given go-ahead](#)
19. Nichols, J. et al. (2023) [Needs assessment and feasibility study for a safer drug consumption facility in Edinburgh Executive summary and recommendations](#)
20. ACMD (2016) [Reducing Opioid-Related Deaths in the UK](#)
21. The Guardian (2024) [Drug consumption rooms could save thousands of UK lives, study finds](#)
22. House of Commons Home Affairs Committee - [Drugs \(2023\)](#)